**Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr sy'n ymwneud â Derbyn Myfyrwyr**

O dan Reoliadau Diogelu Defnyddwyr 2000, mae'n ofynnol i ni ddarparu gwybodaeth ragnodedig benodol i chi (yr ymgeisydd) cyn ffurfio'r Contract. Dyma'r wybodaeth ragnodedig:-

1. Y cyflenwr yw Prifysgol Aberystwyth.

2. Mae'r Prosbectws Israddedigion presennol yn rhoi manylion am y cyrsiau addysgol a gynigir gan y cyflenwr. Gellir cael copi o'r prosbectws presennol gan y Swyddfa Marchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr, Adeilad Cledwyn, Prifysgol Aberystwyth, Campws Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3DD. Neu gallwch e-bostio marketing@aber.ac.uk.

3. Noder bod y cyrsiau addysgol a ddisgrifir yn y Prosbectws Israddedigion presennol yn amodol ar broses adolygu barhaus ac mae'r cyflenwr yn cadw'r hawl i derfynu neu i wneud newidiadau i'r cyrsiau addysgol a ddisgrifir ar unrhyw adeg.

4. Bydd gennych hawl i ganslo'r contract. Gallwch ganslo'r contract drwy wrthod y cynnig. Gallwch wrthod y cynnig ar unrhyw adeg yn ystod y broses dderbyn drwy roi gwybod i ni'n ysgrifenedig.

5. Gallwch ohirio eich mynediad ar unrhyw adeg, yn amodol ar gymeradwyaeth, am hyd at uchafswm o un flwyddyn academaidd.

6. Isafswm cyfnod y Contract fydd y cyfnod cofrestru sydd ei angen i fodloni'r gofyniad sylfaenol i fod yn gymwys ar gyfer y cynllun astudio arfaethedig. Bydd y cyfnod cofrestru sy'n ofynnol i fodloni'r gofynion sylfaenol yn cael ei nodi yn y llythyr cynnig. Os na chyrhaeddir y gofynion sylfaenol o fewn y cyfnod cofrestru a nodir, bydd y Contract yn dod i ben. Bydd hyd arferol y cynllun astudio arfaethedig yn cael ei nodi yn y llythyr cynnig.

7. Mae ffioedd dysgu yn daladwy ar gyfer y cyrsiau addysgol a ddarperir gan y cyflenwr. Mae ffioedd dysgu yn daladwy pan fydd Contract yn cael ei ffurfio. Disgrifir ffioedd dysgu'r

cyflenwr ar wefan y cyflenwr.  Nodwch fod ffioedd dysgu yn cael eu hadolygu'n flynyddol a gallant newid.

8. Mae ffioedd dysgu yn daladwy cyn, neu wrth, gofrestru.  Rhoddir gwybod i ddarpar fyfyrwyr am yr union drefniadau ar gyfer talu cyn cofrestru.  Mae cofrestru'n digwydd pan fydd yr adran academaidd berthnasol a chi'n cadarnhau eich cofrestriad, gan gytuno felly ar fanylion eich cynllun astudio.  Os yw eich cynllun astudio yn fwy na blwyddyn o hyd, bydd yn rhaid i chi ailgofrestru gyda'r Brifysgol ar ddechrau pob blwyddyn academaidd ddilynol.